

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

ADRODDIAD CYFREITHIWR

PWNC: DYLETSWYDDAU'R AELODAU WRTH BENDERFYNU CEISIADAU CYNLLUNIO

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb byr o rôl y Pwyllgor hwn o fewn y system gynllunio.
2. Cod statudol yw'r system gynllunio sy'n rheoli hawliau tiffeddianwyr ac eraill sydd â buddiant mewn tir, er mwyn sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn adlewyrchu budd y cyhoedd. Rhaid i benderfyniadau cynllunio fod yn unol â'i ddarpariaethau.
3. Mynegir budd y cyhoedd drwy gyfrwng y cynllun datblygu. Ar hyn o bryd, y cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod hwn ym mis Medi 2010. Yn ôl y gyfraith rhaid i benderfyniadau cynllunio fod yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu yn wahanol.
4. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol:
 - (a) Polisi cynllunio cenedlaethol, sydd wedi'i osod allan ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol sy'n cyd-fynd â hwy.
 - (b) Ystyriaethau sy'n ymwneud â hanes cynllunio safle, priffyrdd, cadwraeth natur, sŵn, colli preifatrwydd, llunwedd, dyluniad a golwg datblygiad arfaethedig, ac unrhyw effaith a gaiff datblygu ar adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth.
 - (c) Yr angen i ddiogelu a hyrwyddo harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
5. Rhaid diystyru ystyriaethau amherthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Er enghraifft, nid yw materion megis colli golygfa neu effaith negyddol ar werth eiddo yn ystyriaethau perthnasol. Anaml iawn y mae amgylchiadau personol yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio.
6. Oddi ar Ebrill 1^{af} 2016 mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd statudol i hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, trwy gydymffurfio ag amcanion llesiant a chyflawni'r nodau llesiant a restrir yn y ddeddf. Rhaid i'r Aelodau ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Rhaid iddyn nhw sicrhau bod anghenion y presennol wedi'u bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwy.
7. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi ymgorffori'r hawliau yng Nghonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yng nghyfraith gwlad. Ar yr amod bod yr aelodau yn cymhwyso'r cod statudol yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd, byddant wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y Deddfau

Cynllunio a byddant, felly, wedi gweithredu yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998.

- 8 Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu Cod Arferion Da i Aelodau ym maes cynllunio. Mae hwn yn esbonio ac yn ategu Cod Ymddygiad yr Aelodau yng nghyd-destun y system gynllunio. Mae'n bwysig bod yr Aelodau yn gweithredu'r canllawiau yn y Cod Arferion Da hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol.